WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Gareth Chapman
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Merthyr Tudful
CF47 8AN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 1 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 487A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.co.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **8** |

Annwyl Gareth

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

Mae amcanion gwella'r Cyngor (y cyfeirir atynt fel Canlyniadau â Blaenoriaeth) a'i gynllun gwella (sef Cynllun Corfforaethol 2012-13) yn bodloni gofynion y Mesur a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Eleni, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn ymarfer cynhwysfawr i bennu amcanion gwella cliriach sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Mae'r broses hon, a hwyluswyd gan sefydliad allanol, wedi cynnwys gwasanaethau, uwch reolwyr ac aelodau er mwyn pennu pedwar Canlyniad â Blaenoriaeth newydd ar gyfer 2012-13. Mae manteision y berchenogaeth newydd hon a'r gwaith o ymgysylltu â gwasanaethau yn amlwg. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu mesurau perfformiad sy'n diffinio beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant yn glir, ac i fireinio trefniadau i fonitro a llywio gwelliant.

Wrth benderfynu ar yr hyn y dylid canolbwyntio arno, mae'r Cyngor wedi adeiladu ar ei ddealltwriaeth o anghenion lleol drwy ymgynghori'n helaeth â dinasyddion lleol, busnesau a phartneriaid ar ei Gynllun Cymunedol. Cynhaliodd hefyd ymgynghoriad pellach â phreswylwyr ym mis Ionawr 2012. Wrth i'r Cynllun Corfforaethol tymor hwy gael ei ddatblygu, bydd yn bwysig neilltuo digon o amser i sicrhau y parheir i ymgynghori'n effeithiol â dinasyddion a rhanddeiliaid.

Cyhoeddwyd y cynllun gwella a chrynodeb byr annhechnegol ar gyfer y cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddau ar gael ar ffurf electronig ar wefan y Cyngor a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt drwy'r wasg leol. Mae copïau caled o'r crynodeb dwyieithog ar gyfer y cyhoedd ar gael yn ardaloedd derbynfa swyddfeydd y cyngor ac ar gais.

## Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'm cynigion blaenorol ar gyfer gwella

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o gynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn ei ddisgrifio'n bur fanwl yn Atodiad 1. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Cyngor yn dal i fynd rhagddynt, a bydd fy archwilwyr yn parhau i fonitro a chrynhoi cynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu yn fy adroddiadau yn y dyfodol. Caiff rhagor o wybodaeth am fy nghanfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle y bo'n briodol.

### Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran alinio'r cynllun ariannol tymor canolig, y strategaeth rheoli asedau a'r strategaeth gweithlu ond mae angen gwneud mwy o waith er mwyn iddynt gael eu defnyddio i lywio amcanion y Cyngor yn llwyr a'i helpu i'w cyflawni

Mae'r Cyngor wedi meintoli effaith ei flaenoriaethau ar ei gyllidebau byrdymor, er nad yw hyn wedi ei gyfleu hyd yma yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae gan y Cyngor nifer o fentrau sy'n datblygu'n dda ar waith i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'n llai amlwg p'un a ellir pennu cyllidebau cytbwys sy'n darparu digon o adnoddau i gyflawni amcanion gwella'r Cyngor dros y tymor canolig. Nid yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar asesiad cyflawn o wasanaethau yn y dyfodol na'r adnoddau sydd eu hangen i'w darparu.

Ar gyfer cyfnodau y tu hwnt i 2012-13, nid yw'r Cyngor wedi pennu ei flaenoriaethau nac wedi gwerthuso eu goblygiadau ariannol hyd yma. Er mwyn defnyddio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel adnodd cynllunio ariannol effeithiol, bydd angen cynnwys canlyniadau'r gwaith hwn a nodi'n glir y camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg ariannol a nodwyd.

Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau monitro priodol ar waith sy'n cynnwys gwerthuso a chraffu ar y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'r Cabinet, ynghyd â Phwyllgorau Craffu. Dylid defnyddio'r trefniadau craffu a monitro hyn i sicrhau y caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chynlluniau strategol eraill eu cysoni'n well wrth iddynt barhau i gael eu datblygu.

### Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei systemau corfforaethol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae'r Cyngor yn parhau i fireinio ei systemau corfforaethol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad, a bydd fy archwilwyr, maes o law, yn archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy ydynt. Yn y cyfamser dewiswyd cymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Cyfresi Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol i'w harchwilio. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r mesurau a ddewiswyd i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion gwella a ph'un a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion.

O blith y saith dangosydd strategol cenedlaethol a archwiliwyd, nid oedd yr un ohonynt wedi'i amodi ond roedd angen cywiro pedwar yn sgil mân wallau a'r ffaith bod gwybodaeth fwy diweddar ar gael. Mae fy archwilwyr wedi rhoi canfyddiadau manwl i swyddogion er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â'r rhesymau dros y gwallau hynny a ganfuwyd. Byddaf yn cyflwyno adroddiad arall ar berfformiad gwasanaethau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu dau gynnig pellach ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn cyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: | |
| C1 | Nodi ei flaenoriaethau y tu hwnt i 2012-13 a gwerthuso eu goblygiadau ariannol a'u goblygiadau o ran y gweithlu ac asedau fel y gellir defnyddio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel adnodd cynllunio effeithiol i nodi adnoddau ar gyfer y blaenoriaethau hyn. |
| C2 | Ar gyfer ei Ganlyniadau â Blaenoriaeth newydd, datblygu mesurau perfformiad sy'n diffinio beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant yn glir ac yn mireinio trefniadau i foniro a llywio gwelliant. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colin Davies – Rheolwr

Justine Morgan – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Datblygu ymhellach y strategaeth ariannol dymor canolig, y strategaeth rheoli asedau a'r strategaeth gweithlu a'u cysoni er mwyn llywio amcanion y Cyngor a'i helpu i'w cyflawni. | Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ac yn diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig, gan gynnwys ei integreiddio'n gliriach â phrosesau cynllunio rheoli asedau a hwyluswyd drwy gaffael System Rheoli Asedau Technology Forge. Cymeradwywyd y 'Strategaeth Pobl' gan y Cyngor ar 25/4/12.<br>Mae cynlluniau datblygu'r gweithlu wedi cael eu cynnwys ym mhob Cynllun Gwasanaeth Strategol ac yn cynnwys data yn ymwneud â niferoedd y gweithlu, oedran, cydbwysedd rhwng y rhywiau, anableddau, siaradwyr Cymraeg a nodweddion eraill.<br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn integreiddio'r cynlluniau a'r strategaethau allweddol hyn yn llawn a sicrhau eu bod yn effeithiol o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion. |
| C2 | Sicrhau bod yr amcanion gwella yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gwasanaeth a chysoni'r geiriad rhwng yr amryw gyhoeddiadau. | Eleni, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn ymarfer cynhwysfawr i bennu amcanion gwella cliriach sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Mae'r broses hon, a hwyluswyd gan sefydliad allanol, wedi cynnwys gwasanaethau, uwch reolwyr ac aelodau er mwyn pennu pedwar Canlyniad â Blaenoriaeth newydd ar gyfer 2012-13.<br>Mae'r amryw gyhoeddiadau bellach wedi'u cysoni. |
| C3 | Cynnwys datganiad cyffredinol o fewn y cynllun blynyddol tua'r dyfodol ar sut mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei ddyletswydd statudol gyffredinol i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant ym mhob un o'i swyddogaethau. | Mae'r Cyngor wedi cynnwys datganiad cyffredinol priodol yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-13. |

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C4 | Sicrhau bod y systemau a'r rheolaethau data a mesurau perfformiad yn ddigon cadarn i'r Cyngor a'i randdeiliaid fod yn hyderus o ran eu cywirdeb. | Mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnodd parhaus i sicrhau bod trefniadau sicrhau ansawdd mewnol mewn perthynas â systemau a rheolaethau data a mesurau perfformiad yn fwy cadarn. O blith y saith dangosydd strategol cenedlaethol a archwiliwyd gennym, nid oedd yr un ohonynt wedi'i amodi ond roedd angen cywiro pedwar yn sgil mân wallau a'r ffaith bod gwybodaeth fwy diweddar ar gael. Bwriedir gwneud rhagor o waith ar fesurau lleol yn ystod hydref 2012. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i sicrhau ansawdd mesurau lleol dros yr ychydig fisoedd nesaf. |
| C5 | Datblygu dull strategol o gynnwys y cyhoedd a fydd yn cefnogi gwelliannau i'r ymagwedd weithredol at brosiectau cynnwys y cyhoedd unigol. | Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid i sefydlu swydd swyddog Cyfathrebu/Ymgynghori Corfforaethol ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n cynnwys partneriaid eraill megis yr heddlu a'r bwrdd iechyd lleol. Mae'n bwriadu penodi drwy secondiad. Rwy'n bwriadu gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C6 | Adolygu terminoleg amcanion a gweithgareddau gwella, ynghyd â mesurau llwyddiant dethol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u mynegi'n glir, y byddant yn arwain at gyflawni'r amcan gwella perthnasol, a'u bod yn galluogi dinasyddion lleol i fonitro'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i'w bywydau. | Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad cynhwysfawr i bennu amcanion gwella cliriach a mwy cymwys. Mae'r cynllun gwella yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni a'r hyn y bydd yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf. Mae'r Cyngor wedi diffinio beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant drwy bennu canlyniadau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r mesurau perfformiad yn llai amlwg. |
| C7 | Dylai arweinwyr y Cyngor, yn wleidyddion ac yn rheolwyr, hyrwyddo a meithrin diwylliant sy'n galw am hunanasesu perfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau mewn ffordd agored a chytbwys, ac sy'n fwy gwerthusol a realistig o ran y cynnydd a wna'r Cyngor o ran cyflawni amcanion gwella. | Bydd fy archwilwyr yn gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |

| **Cynigion ar gyfer gwella** | | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| C8 | Wrth asesu perfformiad y Cyngor ac adrodd arno, sicrhau:<br>• bod digon o ddata priodol ar gael sy'n dangos nid yn unig beth a faint mae'r Cyngor yn ei wneud, ond hefyd y gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran canlyniadau i'w ddinasyddion;<br>• sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael am y rhesymau dros unrhyw dangyflawni, ei effaith berthnasol a'r camau unioni i'w cymryd. | Bydd fy archwilwyr yn gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C9 | Adolygu amseriad a chynnwys adroddiadau ar gynnydd a pherfformiad er mwyn hwyluso gwell trefniadau gwneud penderfyniadau a herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn sy'n canolbwyntio ar y mesurau a'r tasgau cywir ac yn galw ar swyddogion i gymryd camau unioni lle y bo'n briodol. | Bydd fy archwilwyr yn gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |
| C10 | ewn perthynas â hunansesu ei berfformiad, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac yn cynllunio trefniadau herio a chraffu priodol ac yn eu gweithredu. | Bydd fy archwilwyr yn gwneud rhagor o waith yn y maes hwn a byddaf yn adrodd arno'n fanylach yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. |